

## CYNGOR SIR CEREDIGION

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Moeseg a Safonau</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>17 Ionawr 2022</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Y diweddaraŷ gan arweinwyr y grwpiau gwleidyddol am y dyletswyddau sy'n ofynnol o dan Adran 62-63 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021</b>
<b>Pwrpas yr adroddiad:</b>	<b>Nodi'r dyletswyddau newydd y mae Adran 62-63 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn eu rhoi i arweinwyr gwleidyddol a'r pwyllgor safonau.</b>

Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhoi dyletswyddau newydd i arweinwyr grwpiau gwleidyddol a'r pwyllgorau safonau. Mae Atodiad A yn cynnwys yr adrannau perthnasol, sef adran 62 ac adran 63.

O ran dyletswyddau arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad, (Adran 52A Deddf Llywodraeth Leol 2000) mae'n datgan bod yn rhaid i arweinydd grŵp gwleidyddol sy'n cynnwys aelodau o gyngor sir yng Nghymru gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r grŵp; a bod yn rhaid iddo gydweithio â phwyllgor safonau'r cyngor.

Yn adran 54 Deddf Llywodraeth Leol 2000 (swyddogaethau pwyllgorau safonau), mae gan bwyllgor safonau cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru hefyd swyddogaethau penodol—

- (a) monitro i ba raddau mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adran 52A(1), a
- (b) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny.

Mae adran 63 yn mewnosod y gofynion ar gyfer adroddiad blynyddol y pwyllgor safonau. Yn ogystal â disgrifio sut mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi'u cyflawni, rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys yr hyn a wnaed i gyflawni'r swyddogaethau cyffredinol a phenodol a roddwyd i'r pwyllgor gan adran 54 neu 56. Rhaid i adroddiad blynyddol gan bwyllgor safonau cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru gynnwys asesiad y pwyllgor ynghylch i ba raddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adran 52A (1). Caiff yr adroddiad blynyddol hefyd gynnwys argymhellion i'r awdurdod ynghylch unrhyw fater y mae gan y pwyllgor swyddogaethau mewn perthynas ag ef.

### **Sefyllfa Bresennol**

Gwahoddir arweinwyr gwleidyddol Cyngor Sir Ceredigion bob blwyddyn i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau i drafod y dulliau o hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau Cyngor Sir Ceredigion.

Bellach mae'n angenrheidiol i Arweinwyr Grwpiau ystyried y dyletswyddau ychwanegol arnynt i gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r grŵp; a sut i gydweithio â phwyllgor safonau'r cyngor, a sut y gellir dangos hyn.

**Argymhelliad:**

Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol i ddiweddarau'r Pwyllgor am eu dulliau a'u hanghenion arfaethedig er mwyn hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau eu grwpiau, a sut y gellir dangos hyn.

**Enw Cyswllt:**

Lisa Evans

**Swydd:**

Swyddog Craffu a Safonau

**Dyddiad yr Adroddiad:**

13 Rhagfyr 2021

**Acronymau:**